



YSGOL GYMRAEG

Bro Teyrnnon

“Ysgol i Esgor Gobeithion”

“A Place to Nurture our Aspirations”

Llawlyfr i Rieni

Parents Handbook

Gwybodaeth i Rieni/ Information for Parents

Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon
Brynglas Drive
Casnewydd
NP20 5QS

Ffon/Tel: 01633 850804

E-Bost/E-mail: ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales
ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru

Gwefan/Website: broteyrnon.cymru

Pennaeth / Head Teacher: Mrs Lona Jones-Campbell

Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors: Mr James Bell

c/o Cyngor Sir Casnewydd neu Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon
c/o Newport City Council or Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon

Llythyr i'r Rhieni/Gwarchodwyr

Annwyl Rieni/Warchodwyr

Pan fyddwch yn ystyried Addysg Gymraeg i'ch plentyn/plant 'rydych yn ymuno â'r nifer gynyddol o rieni yng Nghymru sydd yn gweld fod manteision i'w plant mewn addysg ddwyieithog. Wrth wneud eich dewis, fe fyddwch wedi llawn sylweddoli y sialens a gyflwynir gan addysg ddwyieithog – nid yn unig i'r plant a'r athrawon ond i chi, y rhieni, hefyd. Mae'r sialens yn fwy os yw iaith y cartref yn wahanol i iaith yr ysgol. Er hyn, mae ymuno ag addysg ddwyieithog yn cynnig sialens gyffrous ac mae gennych chi, y rhieni, rôl bwysig i'w chwarae 'prun ai Cymraeg neu Saesneg yw iaith gyntaf y cartref.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol â'r rhieni yn un bwysig iawn, ac mae yna wahanol ffyrdd y mae'r rhieni yn gallu cynorthwyo a chymryd rhan ym mywyd ysgol eu plant – e.e. ymuno ar ymweliadau addysgol i gynorthwyo'r athro/athrawes (d)dosbarth; paratoi cefndir ac ardaloedd arddangos gwaith (tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth).

Estynnir croeso cynnes i rieni i gefnogi'r egwyddor o gymell pob plentyn i fanteisio'n llawn ar yr addysg ddwyieithog sy'n cael ei chynnig ym Mro Teyrnnon. Caiff plant eu cymell i siarad Cymraeg ar bob achlysur, yn ystod cyfnodau egwyl a chinio yn ogystal ag yn y gwersi. Gofynnwn hefyd i chi, y rhieni, gefnogi'r plant trwy ddangos diddordeb yn y tasgau cartref, gofyn cwestiynau a chefnogi'n gyffredinol. Rydyn ni yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi y gefnogaeth y mae'r rhieni di-Gymraeg eu hiaith yn dangos wrth ddanfôn eu plant i ysgol Gymraeg ei chyfrwng.

Mae hawl gan bob plentyn i fod yn hapus yn yr ysgol, a'n nôd pob amser yw creu cymdeithas hapus a diogel o fewn yr ysgol – cymdeithas sydd wedi ei seilio ar ddisgyblaeth deg a pharch dyledus rhwng aelodau teulu Bro Teyrnnon, sef y plant, llywodraethwyr, yr holl staff a'r rhieni/gwarchodwyr.

Gan edrych ymlaen at flynyddoedd o gydweithio er budd y plant.

Mrs Lona Jones-Campbell
Pennaeth Gweithredol

A Letter to Parents/Guardians

Dear Parents/Guardians

In choosing Welsh-medium education for your child/children you have joined the ever-increasing number of parents in Wales who acknowledge the advantages of such an education. By making this choice you will have realised that Welsh-medium education presents a challenge - not only to the teachers and pupils but also to you, the parents. The challenge is greater, of course, if the language of the school is different from that of the home. It is, however, an exciting challenge and you, as parents, have an important role to play, whatever the language of the home.

The relationship – or partnership – between the school and the parents is a very important one and there are ways as to how parents can help and take part in the scholastic life of their children. Teachers always appreciate any assistance you might be able to offer, e.g. assisting the class teacher on educational visits; helping to prepare areas for the exhibiting of children’s work (both inside and outside the classroom).

Parental support is vital to maintain the school’s philosophy of encouraging pupils to take full advantage of the Welsh-medium education offered at Bro Teyrnnon. Children are encouraged to speak Welsh at all times – including in the play ground, at break times and during the lunch hour. The school also asks for parental support by helping with home tasks, contributing with school discussions, giving encouragement, and attending Open Evenings.

We, at Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon, recognise and appreciate the support that non-Welsh speaking parents show in choosing to send their children to a Welsh-medium school. There is a strong commitment to the Welsh language and culture within Bro Teyrnnon and it is our intention that our pupils both understand and share in this commitment. Parents who are learning Welsh are warmly invited to spend time in school, to hear the language being spoken and to practise their spoken Welsh.

Every pupil has the right to be happy in school and we are constantly endeavouring to create a safe and happy community within the school – a community which is founded on fair discipline and mutual respect between all members of the Bro Teyrnnon family – the pupils, Governors, staff and the parents/guardians.

I look forward to many years of working together to ensure that Bro Teyrnnon continues to fulfil the potential of every pupil.

Mrs Lona Jones-Campbell
Executive Head Teacher

Cynnwys/Contents

Gwybodaeth i Rieni/ Information for Parents.....	2
Llythyr i'r Rhieni/Gwarchodwyr	2
A Letter to Parents/Guardians.....	3
Cynnwys/Contents.....	4
Datganiad Gweithredol	6
Manifesto	6
Amcanion yr Ysgol	6
School Objectives	6
Yr Ysgol	7
The School	7
Dwyieithog o'r Dechrau.....	8
Bilingual from the Start	8
Cymraeg Yn Y Cwricwlwm	9
Welsh In The Curriculum	10
Llywodraethwyr/Governors	11
Dyddiadau tymhorau a gwyliau blwyddyn academaidd 2023/24.....	13
Term Dates and Holidays 2023/2024 Academic Year	13
Y Diwrnod Ysgol	14
The School Day	15
Cyfathrebu gyda Rhieni/Gwarchodwyr	17
Communicating with Parents/Guardians	17
Safle Ysgol.....	17
The School Site	18
Diogelwch yn yr Ysgol.....	18
School Security	19
Iechyd A Diogelwch	19
Health and Safety	20
Polisi Derbyn/Admissions Policy.....	21
Trefniadau Derbyn plant ym mis Medi.....	22
Arrangements for admitting children into the school in September	22
Presenoldeb.....	22
Attendance	23
Prydlondeb / Punctuality.....	23
Absenoldeb.....	24
Absences.....	24
Newid Cyfeiriad / Rhif Cyswllt	24
Change of Address / Telephone Number	24
Disgyblion a Gwarchodwyr sydd ag Anableddau	24
Pupils with Disabilities.....	25
Anghenion Dysgu Ychwanegol	25
Additional Learning Needs	25
Medrus a Thalentog/ More Able and Talented Pupils	26
Trefniadaeth yr Ysgol/ School Organisation	26
Cwricwlwm, Addysgu a Dysgu	26
Cwricwlwm i Gymru.....	27
Curriculum and Teaching and Learning.....	27
Curriculum For Wales	28
Gwersi Offerynnol/Music Lessons.....	28
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.....	29
Information Communication Technology.....	30
Y Llyfrgell	30
Library.....	31

Addysg Gorfforol a Chwaraeon	31
Physical Education and Sport	31
Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg	31
Religion, Values and Ethics	32
Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb	32
Relationship and Sexuality Education	32
Gwisg Ysgol	32
School Uniform	33
Tlysau	34
Jewellery	34
Gwisg Addysg Gorfforol – Derbyn i Flwyddyn 6	34
P.E. Kit – Reception to Year 6	35
Cyngor yr Ysgol a’r Cyngor Eco	35
School Council and the Eco Council.....	35
Disgyblaeth	35
Discipline	36
Byrbrydau Amser Egwyl –	36
Play Time Snacks –.....	36
Poteli o Ddŵr	37
Bottles of Water	37
Clybiau Allgyrsiol.....	37
Extra Curricular Clubs	37
Cytundeb Cartref/Home School Agreement	38
ParentPay	39
ParentPay	39
Prydau Bwyd Ysgol.....	40
School Meals.....	40
Moddion	41
Medicines	41
Cysylltiadau rhwng y Cartref a’r Ysgol	42
Home School Links.....	42
Ymgynghoriadau Rhieni/Athrawon	42
Parent/Teacher Consultations.....	42
Google Classroom.....	43
Google Classroom.....	43
Cyngherddau	43
Concerts.....	43
Adroddiadau	43
Reports	43
Polisi Codi Tâl a Gostyngiadau	44
Charging and Remissions Policy	44
Achosion Hiliol/ Racial Incidents	44
Gwarchod Plant	44
Child Protection	44
Plant sy’n Derbyn Gofal/Children Looked After	45
Operation Compas.....	45
Operation Encompass.....	45
Trefn Cwynion	45
Complaints Procedure	46
School Privacy Notice	47
Hysbysiad Preifatrwydd Ysgolion	52
EduKey Privacy Policy	57
Seesaw Privacy Policy	64
Wonde Privacy Notice	74

Datganiad Gweithredol

Creu amgylchfyd a nawws a fydd yn hybu parch, gofal, cyfeillgarwch a chydweithio ystyrion a theimladwy rhwng oedolion a disgyblion, ble y gall pob disgybl brofi sbectrwm eang o weithgareddau gwerthfawr a buddiol ac, yn sgil pob ymdrech, profi boddhad a llwyddiant.

Manifesto

Create an environment for all where there is a caring and sensitive interaction between all adults and pupils, where a wide spectrum of rich experiences are offered to pupils and where all experience a sense of success and satisfaction.

Amcanion yr Ysgol

1. Ysgol groesawgar sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn trwy ddatblygu perthynas gyda'r holl gymuned.
2. Datblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n cyrraedd eu llawn botensial ymhob agwedd o'r cwricwlwm trwy ddysgu dilyys, pwrpasol ac uchelgeisiol trwy ystod o brofiadau cyfoethog.
3. Tegwch a chydaddoldeb i bob disgybl, waeth beth fo'i ryw, grefydd neu hil.
4. Gwerthoedd clir sy'n datblygu dinasyddion egwyddorol a gwybodus sydd yn dangos parch tuag at eu cymuned lleol a thu hwnt
5. Pwysleisio pwysigrwydd ymddygiad, cwrteisi ac ymddangosiad tuag at bawb.
6. Annog dysgwyr i fod yn annibynnol, yn greadigol ac yn fentrus trwy ddatblygu eu sgiliau meddwl, eu gallu i brosesu gwybodaeth, eu gallu i resymu ac i ymholi a gwerthuso.
7. Hybu'r iaith Gymraeg yn y gymuned a chreu diwylliant er mwyn i'r disgyblion ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg naturiol ac i ymfalchio yn eu hunaniaeth.
8. Annog a chefnogi ein dysgwyr i fod yn unigolion iach a hyderus gan feithrin lles emosiynol, ysbrydol a chorfforol.

School Objectives

1. A welcoming school that promotes a feeling of belonging through developing a relationship with the whole community.
2. Develop ambitious and able pupils that reach their full potential in all aspects of the curriculum through authentic, purposeful and ambitious learning through a variety of rich experiences.
3. Equity and equality of opportunity to all pupils, regardless of gender, religion or race.
4. Clear values that develop principled and informed citizens that show respect towards their community and beyond
5. Emphasise the importance of behaviour, courtesy and appearance towards all.
6. Encourage learners to be independent, creative and enterprising to develop their thinking skills, ability to process information, their ability to reason and to enquire and evaluate.
7. Promote the Welsh language in the community and create a culture for pupils to develop into natural Welsh speakers and be proud of their identity.
8. Encourage and support our learners to be healthy and confident individuals by nurturing their emotional, spiritual and physical well-being.

Yr Ysgol

Agorwyd drysau Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon i ddisgyblion ym mis Medi 2011, trydedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Casnewydd, i fodloni'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ysgol wedi ei henwi ar ôl Teyrnnon Twf Gwliant, cymeriad o'r Mabinogion, sef casgliad o straeon Cymraeg canoloesol. Teyrnnon oedd arglwydd Gwent-yn-Coed yn stori Pwyll a Rhiannon.

Sefydlwyd Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon i gychwyn yn rhannu safle gydag Ysgol Gynradd Maindee. Agorwyd yr ysgol gyda 16 o blant mewn dosbarth cychwynnol ar gyfer disgyblion meithrin a derbyn. Hyd yn hyn mae wedi bod yn daith sydd wedi ymgorffori ymhellach ethos hapus a diogel i'n holl blant. Symuded Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon i'w lleoliad parhaol ym Medi 2013 - safle blaenorol Ysgol Gynradd Brynglas. Lleolir Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ar y safle dros dro tan Awst 2018, mewn adeiladau ar wahân. Mae wedi bod yn fraint i gael rhieni a ffrindiau cefnogol sydd wedi cofleidio'r ysgol newydd.

The School

Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon, Newport's third Welsh-medium primary school, opened its door to pupils in September 2011 to meet the increasing demand for Welsh medium education.

The school is named after Teyrnnon Twf Gwliant (Teyrnnon Great King, Roar of the Sea), a character from the Mabinogion, which is a collection of medieval Welsh stories. Teyrnnon was lord of Gwent-is-Coed, and features in the story of Pwyll and Rhiannon.

Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon was established sharing a site with Maindee Primary School. The school opened with 16 children in a starter class for nursery and reception pupils. Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon moved to its permanent site in September 2013 – Brynglas Primary School's previous site. Ysgol Gyfun Gwent Is Coed was situated on the site temporarily until August 2018, which was housed in separate buildings. It has been a privilege to have such supportive parents and friends that have embraced the new school.



Dwyieithog o'r Dechrau

Mae dwy ran o dair o boblogaeth y byd yn ddwyieithog, y newyddion da yw ei bod yn hawdd i unrhyw blentyn gael ei fagu'n ddwyieithog yng Nghymru.

Pam traferthu?

- gall eich plentyn siarad dwy iaith ac felly fwynhau dau ddiwylliant gwahanol iawn;
- mae plant dwyieithog yn datblygu sgiliau eraill fel sgiliau datrys problemau a sgiliau meddwl yn greadigol yn gyflymach na phlant sydd ond yn siarad un iaith ac maent yn aml yn llwyddo'n well yn yr ysgol ac mewn arholiadau;
- mae nifer cynyddol o gyflogwyr yng Nghymru yn ystyried bod y gallu i siarad Cymraeg yn fantais, felly fe allai bod yn ddwyieithog fod yn fanteisiol iawn pan fydd eich plentyn yn chwilio am swydd yn y dyfodol;
- mae dysgu unrhyw sgil yn haws pan fyddwch yn ifanc – gorau po gyntaf!

Oni fydd fy mhlentyn yn drysu?

- mae cymysgu'r ddwy iaith yn ystod y camau cynnar yn gwbl naturiol;
- nid yw hyn yn golygu bod eich plentyn yn ddryslud, o fewn ychydig o amser bydd y ddwy iaith yn ymwahanu'n gwbl naturiol.

Bilingual from the Start

Two thirds of the world's population is bilingual. The good news is that here in Wales it really isn't difficult for any child to grow up to be bilingual.

Why should you bother?

- Your child will be able to speak two languages and therefore enjoy two very different cultures;
- Bilingual children develop other skills such as problem-solving and creative thinking quicker than children who speak one language, also they often do better at school and in exams;
- More and more employers in Wales consider the ability to speak Welsh to be an advantage, therefore being bilingual could be a big plus in the future when your child is considering career options;
- Learning any skill is easier when you're young – and the younger you are, the easier it is.

Won't my child get confused?

- 'Wenglish'-mingling the two languages in the early stages is completely normal;
- This doesn't mean that your child is confused; the two languages will eventually separate quite naturally.

Cymraeg Yn Y Cwricwlwm

Lle'r Gymraeg Mewn Ysgol Gymraeg Ei Chyfrwng

- *Y gymraeg yw cyfrwng cyfathrebu ac addysgu'r ysgol.*
- *Y mae'r defnydd cyson o'r gymraeg yn rhan annatod o ethos pob ysgol gymraeg.*

Y Gymraeg Yn Y Cwricwlwm

Y Gymraeg yw cyfrwng addysgu pob maes dysgu a profiad o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn yr ysgol ar wahân i Saesneg o flwyddyn 3 i flwyddyn 6.

Yn ystod wythnosau cyntaf y disgybl yn y dosbarth Meithrin/Derbyn bydd ychydig ddefnydd o'r Saesneg yn fodd o gynorthwyo'r disgybl i ymgartrefu. Wedi hynny, y Gymraeg, fydd yr iaith a ddefnyddir i addysgu'r disgyblion.

Cyflwynir y Saesneg ym Mlwyddyn 3 pan fydd y disgyblion yn 7 oed.

Y Gymraeg Ym Mywyd Yr Ysgol

Disgwylir i bob disgybl i siarad Cymraeg yn barhaus yn ystod ei ddiwrnod ysgol. Y mae hyn yn golygu mai'r Gymraeg a ddefnyddir i gyfathrebu'n gymdeithasol yn ystod amseroedd chwarae ac yn ystod yr awr ginio. Canmolir disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn gyson. Os fydd disgybl yn gwrthod siarad Cymraeg yn y cyswllt hwn y mae nid yn unig yn torri rheolau'r ysgol ac yn difetha ethos y sefydliad ond, hefyd, yn ddylanwad drwg ac yn peri i ddisgyblion eraill i dorri rheolau ysgol.

Os fydd achos fel hwn yn codi bydd staff yn yr ysgol yn trafod gyda'r disgybl. Os na fydd canlyniad ffafriol i'r weithred hon, yna fe wahoddir y rhieni i'r ysgol i drafod ymhellach.

Y Gymraeg Yn Y Gymuned

Gofynnwn i rieni i annog eu plant i fanteisio ar bob cyfle i gael profiadau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, e.e. wrth ymuno â chlybiau dawnsio a drama. Anogwn - aelodaeth o'r Urdd a'r gweithgareddau cysylltiedig. Yn ogystal mae Menter Casnewydd yn cynnal nifer o weithgareddau ar hyd y flwyddyn.

Bydd gohebiaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn cael ei wneud trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.



Welsh In The Curriculum

The Role of Welsh in a Welsh-Medium School

- *All communication and instruction within the school is through the medium of welsh.*
- *Regular use of welsh is an integral part of the desired ethos within a welsh-medium school.*

Welsh in the Curriculum

Welsh is the medium of instruction for all areas of learning within Curriculum for Wales – other than English from Year 3 to Year 6.

English is used during the first few weeks of the Nursery/Reception class when the pupil starts school in Reception, to enable pupils from non-Welsh speaking homes to settle happily into the school environment. Following the initial settling down period, the Welsh language is used as a means of instruction and in social contexts.

English is introduced in Year 3 when the pupils are 7 years old.

Welsh In A Social Context – Within School

Pupils are expected to speak Welsh socially at all times during the school day – during playtimes and the lunch hour.

Children are praised for speaking Welsh, especially when there is no member of staff present.

Should a pupil be unwilling to speak Welsh – although they are capable of doing so – then they are detracting from the desired ethos of the school and is, at the same time, indirectly encouraging peers to do likewise. Every effort will be made to persuade the pupil to conform to the clearly set guidelines and staff will discuss the situation with the pupil and, if necessary, parents will be invited to the school in order to discuss further.

Welsh Outside The Home Environment

Parents are asked to encourage their children to take advantage of any Welsh-medium activities that are available in their local area. Many organisations now present an opportunity for children to enjoy various sporting and social activities through the medium of Welsh, e.g. by attending dancing and drama clubs. We encourage membership of the “Urdd” (National Movement for Young People), and in the associated activities. Additionally, Menter Casnewydd offer a variety of activities throughout the year.

All correspondence with parents is in bilingual form.



Llywodraethwyr/Governors

Mae gan Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ei Chorff Llywodraethol ei hun. Bydd yn cyfarfod tua dwywaith y tymor, ac mae'n cynnwys Cynrychiolwyr yr Awdurdod, Rhieni, Athrawon yn ogystal â Llywodraethwyr Cyfetholedig. Bydd pob aelod yn gwasanaethu am gyfnod o 4 mlynedd. Cynhelir etholiadau ar gyfer cynrychiolwyr y Rhieni pan ddaw eu tymhorau i ben ac mae gan bob rhiant yn yr ysgol yr hawl i bleidleisio, ac i sefyll i gael eu hethol os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Dyma'r rhai sy'n aelodau o'r Corff Llywodraethu ar hyn o bryd:

Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon has its own Governing Body. The Governors meet about twice a term and it is made up of L.A. representatives, Parents, Teachers as well as Community governors. All members serve for a 4 year term, elections are held for parent governors when terms of office come to an end. All parents at the school have the right to vote, as well as stand for election if they wish.

The following people are currently members of the Governing Body:



Mrs L Jones-Campbell
Pennaeth/Head Teacher



Mr James Bell
Chairperson
Llywodraethwyr Cymuned/
Community Governor
11/02/2027



Mr Sian Islam
Cynrychiolydd Athrawon/
Teacher Representative
20/03/2027



Mrs Rachel Howells
Cynrychiolydd Staff/
Staff Representative
27/11/2024



Ms Catrin Devonald
Llywodraethwyr Cymuned/
Community Governor
24/01/2026



Mrs Hibba Baqi
Cynrychiolydd Rhiant/
Parent Representative
25/11/2023



Mrs Julie Watkins
Penodwyd gan yr ALI/
LA Appointed
13/05/2025




Shereen Williams
Llywodraethwyr Cymuned/
Community Governor
6/12/2024




Miss Danielle Hitt
Cynrychiolydd Rhiant/
Parent Representative
11/05/2025




Mrs Catrin Cox
Cynrychiolydd Rhiant/
Parent Representative
11/05/2025



Mr Peredur Griffiths
Penodwyd gan yr ALL/
LA Appointed
27/02/2027



Mr Tom Pedley
Penodwyd gan yr ALL/
LA Appointed
17/05/2027



Mr Calvin Burton
Cynrychiolydd Rhiant/
Parent Representative
19/05/2027

Pan fydd yn gyflawn, dyma nifer yr aelodau ar gyfer pob carfan:
When fully constituted this governing body is made up as follows:

Cynrychiolwyr yr AALI / LA Representatives	3	Rhiant-lywodraethwyr / Parent Governors	4
Llywodraethwyr Cymuned / Community Governors	3	Clerc / Clerk	1
Athro Lywodraethwyr / Teacher Governor(s)	1	Cynrychiolydd Staff / Staff Representative	1
Pennaeth / Head Teacher	1	Cyfanswm / Total	14



Dyddiadau tymhorau a gwyliau blwyddyn academaidd 2023/24
Term Dates and Holidays 2023/2024 Academic Year

	Tymor yn dechrau / Term starts	Hanner tymor yn dechrau / Half term starts	Hanner tymor yn gorffen / Half term ends	Diwedd Tymor / Term ends
Hydref / Autumn	01/09/23	30/10/23	3/11/23	22/12/23
	76 diwrnod/days			
Gwanwyn / Spring	08/01/24	12/02/24	16/02/24	22/03/24
	50 diwrnod/days			
Haf / Summer	08/04/24	27/05/24	31/05/24	19/07/24
	69 diwrnod/days			

Fe fydd 196 o ddiwrnodau ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024.

There will be 196 school days during the academic year 2023-2024.

Fe fydd pob ysgol ar gau ar **Ŵyl y Banc Calan Mai, Dydd Llun 6^{ed} o Fai 2024.**

All schools will be closed on **May Day Bank Holiday, Monday 6th of May 2024.**

Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS)

Mae yna o leiaf 5 diwrnod HMS yn ystod blwyddyn academaidd Ysgol ac fe'ch hysbysir ohonont mlaen llaw. Mae dyddiadau diwrnodau HMS yn amrywio pob blwyddyn.

In Service Training Days (INSET)

There are a minimum of 5 INSET days during each academic year and you will be notified of these in advance. The INSET dates vary each year.

Y Diwrnod Ysgol

Meithrin: 09:00 – 11:30

Derbyn – Blwyddyn 2:

Ysgol yn dechrau – 09:00

Egwyl Bore – 10:30-10:45

Amser Cinio – 11:45

Sesiwn Prynhawn – 12:45

Egwyl Prynhawn – 14:15-14:30

Ysgol yn Gorffen – 3:15

Blwyddyn 3 - 6:

Ysgol yn dechrau – 09:00

Egwyl Bore – 10:30-10:45

Amser Cinio – 12:00

Sesiwn Prynhawn – 12:45

Egwyl Prynhawn – 14:00-14:15

Ysgol yn Gorffen – 3:15

Trefniadau'r Bore

Ni ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn 8:50am. O 8:50 cerddwyr i fynd drwy'r giat werdd gyda'i rhieni i waelod grisiau'r brif fynedfa a mynd mewn i'r ysgol drwy'r brif fynedfa a rhieni i fynd allan drwy giat cerddwyr sydd wrth ochr gatiâu dwbl yn maes parcio. Plant y bysiau i ddod oddi ar y bysiau a mynd yn syth drwy'r giat maes parcio sydd ar agor ar ongl 45gradd ac yna'n syth i'r brif fynedfa. Rheini/Gwarchodwyr Meithrin i dywys eu plant i'r iard Meithrin a mynd allan trwy giat cerddwyr sydd wrth ochr gatiâu dwbl yn maes parcio.

Os ydych yn dod a'ch plant i'r ysgol ni ddylid eu gadael heb ofalaeth hyd nes bod aelod o staff wrth y brif fynedfa.

Ni chaniateir i rieni/gwarchodwyr barcio yn y maes parcio sydd o flaen y brif fynedfa, croeso i chi ddefnyddio'r maes parcio mawr sydd ar gornel y cae. Mae'r trefniadau yma yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch ein disgyblion ar bob adeg.

Hwyluso Traffig ar ffordd Brynglas Drive

Gofynnwn yn garedig am gydweithrediad pawb pan fyddwch yn dod a'ch plant i'r ysgol neu'n ymweld â'r safle mewn car. Pan fyddwch yn gyrru i safle'r Ysgol ar ôl ymadael a'r cylchdro, trowch i'r chwith ar y cyffordd-t i fynd ar Brynglas Drive. Fe fydd hyn yn eich tywys ar hyd y fordd tuag at flaen yr Ysgol. Fe fyddwn yn gwerthfawrogi pe bai pawb yn teithio mewn dull clocwedd ar Brynglas Drive. Fe fydd trafndiaeth yn dilyn yr un canllawiau.



Diwedd y diwrnod ysgol

Ar ddiwedd y dydd, bydd y plant sy'n teithio ar fws / tacsï yn cael ei hebrwng o'u dosbarthiadau i'r bysiau gan aelodau o'r staff, yna fe drosglwyddir y cyfrifoldeb am ofal y plant i hebryngwyr y bysiau. Cesglir y plant sy'n teithio adref gyda'u rhieni o'r giât llwybr gerdded. Rydyn yn argymhell na ddylai plant gerdded i'r ysgol na mynd adref ar eu pen eu hunain, - os ydych am i hyn ddigwydd gadewch i ni wybod trwy lythyr os gwelwch yn dda. Ni chaniateir unrhyw gemau o unrhyw fath ar dir yr ysgol heb oruchwyliaeth athro neu athrawes.

Oherwydd rhesymau lechyd a Diogelwch ni ddylai rhieni adael i'w plant chwarae ar yr offer sydd ar dir yr ysgol nac yn y gerddi.

Y rhieni sy'n gyfrifol am ddiogelwch eu plant unwaith y byddant wedi eu rhyddhau o ofal y staff ar ddiwedd y dydd. Dylech egluro hyn i unrhyw berson arall a allai fod yn cwrdd â'ch plentyn o'r ysgol. Cyfrifoldeb y rhieni fydd sicrhau bod pwys bynnag sy'n casglu eu plentyn yn cyrraedd yn brydlon. Nid yw staff yr ysgol yn gyfrifol am eich plentyn ar ôl 3:15 p.m. (ac eithrio gweithgareddau ar ôl ysgol, drwy drefniant). Hysbysir y rhieni o amseroedd gorffen y gweithgareddau hyn a bydd angen eich llofnod ar sliplau caniatâd cyn bod unrhyw blentyn yn cael aros ar ôl oriau Ysgol.

Trefniadau ar gyfer Plant Meithrin

Fe fydd rhieni/gwarchodwyr yn tywys y plant i'r dosbarth Meithrin yn y bore ac yn ei casglu o 'run lleoliad ar ddiwedd y sesiwn.

Clwb Brecwast

Cynhelir Clwb Brecwast yn yr Ysgol o 8:20-8:50. I gofrestru mae'n rhaid cwblhau ffurflen cofrestru.

Clwb Carco

Cynhelir Clwb Carco "Sbort a Sbri" yn yr Ysgol o 3:15yp i 5:15yp. Fe fydd angen i chi gwblhau ffurflen i ymaelodi a'r clwb. Cydlynu'r Clwb gan Fenter Iaith Casnewydd.

The School Day

Nursery: 09:00 – 11:30

Reception – Year 2:

School Starts – 09:00

Morning Break – 10:30-10:45

Lunch Time – 11:45

Afternoon Session – 12:45

Afternoon Break – 14:15-14:30

School Ends – 3:15

Year 3 - 6:

School Starts – 09:00

Morning Break – 10:30-10:45

Lunch Time – 12:00

Afternoon Session – 12:45

Afternoon Break – 14:00-14:15

School Ends – 3:15

Morning Arrangements

Parents are advised that their children should arrive no earlier than 8:50am. From 8:50 children who walk to school to enter via the green gate and walk with their parents to the bottom of the main entrance steps and enter through the main entrance and parents to leave via the pedestrian gate to the left of the car park gates. Children who travel on buses go straight through the large carpark gate which is opened on a 45degree angle and then go directly to the school's main entrance.

If you accompany your children to school, please do not leave them unsupervised until a member of the school staff arrives on supervision duty at 8.50.

Parents and Guardians are not permitted to park in the school car park in front of the main entrance but your welcome to use the large car park on the corner of the field. These arrangements are essential to ensure the safety of our pupils at all times.

Ease Traffic arrangements on Brynglas Drive

We ask kindly for everyone's co-operation when you bring your children to the school or visit the site via car. When driving to the school site after you leave the roundabout, turn left at the t-junction to go onto Brynglas Drive. This will take you in on a circular route to the front of the school. We would appreciate everyone to use Brynglas Drive in a clockwise direction. All school transport will also be following these arrangements.



End of the school day

At the end of the day, children travelling home on school transport will depart from their classrooms, staff then accompany them to the buses / taxis where the escorts take over the responsibility for their welfare. The collection points for children travelling home with parents is at the pedestrian walking gate. We advise that children do not walk to school or go home alone without prior instruction from parents, please inform us in writing if you allow this to happen. No games of any kind are allowed on the yard or the field without teacher supervision.

Parents are responsible for their children's safety once they have been transferred to their care at the end of the day. Please make this very clear to any other person who may be meeting your child from school and ensure that they arrive on time. For Health and Safety reasons please ensure that your child does not play on the outdoor equipment which are situated on the school grounds or in the school garden. School staff are not responsible for pupils after 3.15pm (with the exception of after school arranged activities).

Arrangements for Nursery Children

Parents/Guardians will escort the children to the Nursery classroom in the morning and collect them from the same location at the end of the session.

Breakfast Club

A Breakfast Club is held at the school from 8:20-8:50am. To register you need to complete a registration form.

After School Club

An after-school club is held at the school from 3:15-5:15pm. You will need to complete an application form to join the club. Club is co-ordinated by Menter Iaith Casnewydd.



Cyfathrebu gyda Rhieni/Gwarchodwyr

Bydd pob llythyr yn cael ei e-bostio i rieni ac yn yr adran ffeiliau ar dudalen Facebook yr Ysgol. Pan fydd y wefan wedi cael ei chwblhau fe fydd y llythyron yn cael eu gosod ar y wefan hefyd.

Communicating with Parents/Guardians

All letters will be emailed to parents and placed in the file section of the School Facebook Group. All letters will be placed on the school website once it is completed.

Safle Ysgol

Cyfleusterau

- Ystafelloedd dosbarth eang ac addas i ystod helaeth o weithgareddau ac ardaloedd gweithio tu allan i'r dosbarthiadau.
- Sgrin teledu fawr rhyngweithiol ym mhob ystafell ddosbarth a chyfrifiaduron.
- Neuadd Ysgol.
- Ardal Llyfrgell.
- Offer addysg gorfforol.
- Gweithgareddau Awyr Agored.
 - Cylch o foncyff yn y berllan.
 - Dosbarth allanol yn y goedwig.
 - Llwybr offer pren.
- Rhandir.
- Toiledau ar gyfer staff a disgyblion abl ac anabl (sy'n cael eu glanhau yn ddyddiol gan gwmni allanol).
- Pob dosbarth a mynediad i Chromebooks ac iPads

The School Site

Facilities

- Classrooms have direct exits to internal and external activity areas.
- Each class has an interactive TV screens and P.C.s
- School Hall.
- Library area.
- Physical education equipment.
- Outdoor Activity Area.
 - Log Circle in the Orchard
 - Outdoor Classroom in the forest.
 - Wooden activity trail.
- Allotment.
- Toilets for able and disabled staff and pupils (cleaned daily by an external company).
- All classes have access to Chromebooks and iPads

Diogelwch yn yr Ysgol

Nid oes unrhyw hawl tramwyo drwy dir yr ysgol. Caiff y plant eu goruchwylio'n ofalus pan fyddant ar yr iard neu ar y cae; mae eu diogelwch a'u lles yn holl bwysig.

Am 9:00 a.m. fe fydd y giât llwybr gerdded ac drysau'r ysgol yn cael eu cloi. O 9:00a. ymlaen fe fydd y plant yn dilyn y llwybr sy'n cael ei hamlygu gan y rhwystrau dros dro yn y maes parcio i gyfeiriad y brif fynedfa. Fe fydd plant sy'n mynychu'r meithrin yn cel eu tywys i iard y Meithrin gan eu rhieni / gwarchodwyr.

Dim ond drwy'r brif fynedfa y gall ymwelwyr gael mynediad. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd gyflwyno eu hunain i'r swyddfa a llofnodi llyfr ymwelwyr a derbyn copi o Asesiad Risg ar gyfer Ymwelwyr os bydd angen iddynt aros ar y safle am unrhyw gyfnod o amser. Disgwylir i bob ymwelydd i wisgo bathodyn ymwelydd tra ei bod as y safle. Ni chaniateir mynediad i unrhyw un i'r ysgol heb ganiatâd. Bydd prif ddrws yr ysgol hefyd ar glo, dim ond drwy gyfrwng system electronig y gellir cael mynediad. Os bydd angen i chi ddod i'r ysgol am unrhyw reswm, a fyddechystal â ffonio i'n hysbysu gan egluro'r rheswm.

PWYSIG:

- **Ni chaniateir dod a chŵn ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg.**
- **Ni chaniateir ysmegu ar dir yr ysgol.**

School Security

There is no public right of way through the school grounds. The children are well supervised when on the yard and on the field; their safety and wellbeing is of paramount importance.

At 9:00 a.m. the pedestrian walking gate and the school doors are locked. From 9:00am all children will follow the pathway highlighted by the temporary barriers in the car park to the main reception area. Children attending Nursery will be escorted to the nursery area by their parents / guardians.

Entry for visitors is only possible through the main entrance. All visitors are required to report to the office and sign in a visitors' book and receive a copy of the Visitor's Risk Assessment if they need to stay on site for any length of time. All visitors will need to wear a visitor's badge whilst on the site. No one is allowed to enter the school without permission. The main school door is also locked with entrance gained only by an electronically operated system. Please phone to make an appointment if you need to come to school during the day explaining the reason for your visit.

IMPORTANT:

- **No dogs are allowed on the school site at any time**
- **No smoking on school site**

Iechyd A Diogelwch

Bwrdd Llywodraethol

Bwrdd Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am iechyd, diogelwch a materion lles o fewn yr ysgol.

Pennaeth

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am reolaeth iechyd a Diogelwch.

Mae'r cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:

- Annog agwedd positif at iechyd a Diogelwch o fewn yr ysgol.
- Diogelwch yr adeilad ac adnoddau.
- Cynnig gwybodaeth i'r gweithlu ar iechyd a diogelwch yn ogystal â lles.
- Goruchwylio'r gweithlu i sicrhau fod ganddynt amgylchfyd ddiogel i weithio ynddi.
- Goruchwylio ymwelwyr.
- Trafod gyda'r gweithlu cyn cyflwyno unrhyw newidiadau all effeithio ar Iechyd a Diogelwch.
- Sicrhau fod goruchwyliaeth ddigonol ar gael ar gyfer gweithgareddau allanol.
- Sicrhau fod damweiniau a pheryglon yn cael eu recordio yn yr App Damweiniau a Llyfr Peryglon yn y Brif swyddfa.
- Trefnu hyfforddiant i'r gweithlu.

Athrawon dosbarth

Mae'r cyfrifoldebau iechyd a Diogelwch yr athrawon dosbarth yn cynnwys:

- Goruchwylio'r plant a chymryd camau rhesymol am eu iechyd a'u Gofal.

- Rhoi cyfarwyddiadau clir pan fo angen.
- Dangos esiampl dda wrth ymgymryd â lechyd a Diogelwch.
- Cynnig cymorth i'r Pennaeth ynglŷn â gwelliannau ar faterion o ddiogelwch.
- Gwneir Asesiadau Risg i bob ardal dysgu a chyn unrhyw ymweliad addysgol.

Canllawiau Diogelwch

- Bydd staff ar ddyletswydd yn ystod y cyfnodau egwyl, yn trîn damweiniau (a'r goruchwylwyr yn ystod yr awr ginio).
- Angen gofal agos pan fo plant yn defnyddio offer Technoleg.
- Rhaid bod yn ofalus wrth gwblhau unrhyw dasgau codi a chario.
- Rhaid i ddisgyblion gerdded yn drefnus i mewn ac allan o'r adeilad bob amser.
- Dylai athrawon arwain plant wrth gerdded o amgylch yr ysgol – nid eu dilyn.
- Rhaid gwisgo gwregys bob amser wrth deithio ar ymweliadau.
- Ymarfer Corff - gall y plant fod yn droednoeth yn y neuadd, ond rhaid gwisgo "trainers" ar gyfer gwersi tu allan.
- Caiff y dril tân ei ymarfer bob tymor.
- Profi'r y gloch dân yn wythnosol.

Health and Safety

Governing Body

The Governing Body of the school has overall responsibility for health, safety and welfare issues within the school.

Head Teacher

The Head Teacher will take day to day management of Health and Safety to ensure the policy is being carried out.

Key areas of responsibility will include:

- Encouraging and promoting a positive health and safety culture in the school.
- Safe condition of premises and equipment.
- Provision of information to employees on Health and Safety and Welfare issues.
- Supervision of employees to ensure safe working procedures are followed.
- Supervision of visitors.
- Ensuring adequate consultation with staff before introducing any change which may affect health and safety at work.
- Ensuring adequate levels of supervision for outdoor activities.
- Ensuring that accidents and hazards are recorded on the Accident App and Hazard Book in main office.
- Identifying training needs of staff.

Class Teachers

The Health and Safety responsibilities of class teachers include:

- Supervising pupils and taking reasonable steps to ensure their Health and Safety.
- Giving clear instructions and warnings when this is necessary.
- Setting a good example by adopting good Health and Safety procedures.
- Recommending to the Head Teacher any improvements on safety issues.
- Risk Assessments will be undertaken of school teaching areas and before any educational visits.

General Safety Guidelines

- Any accident happening during morning or afternoon break times will be attended to by a member of staff on yard duty (supervisory staff members during lunch time).
- Close and careful supervision is required when pupils are using technology equipment.
- Care must be taken when completing any manual handling tasks.
- All pupils must walk into the building in an orderly manner at all times.
- Teachers should lead, not follow, the pupils when walking around the school.
- Seat belts must be worn at all times on school visits, etc.
- Physical Education – when participating in Physical Education lessons in the Hall, children can be barefoot. Trainers must be worn for lessons taken outside.
- The fire drill is practised termly.
- The fire bell is tested weekly.

Polisi Derbyn/Admissions Policy

Derbynir plant i'r dosbarth Meithrin (rhan amser) y tymor ar ôl eu penblwydd yn dair mlwydd oed ac i'r Derbyn yn llawn amser yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yr A.A.Ll. sy'n gyfrifol am dderbyn plant i ysgolion ac mae polisi derbyn yr A.A.Ll. yn weithredol yn yr ysgol hon. Gweler gwefan Cyngor Dinas Casnewydd am dalgylchoedd ysgolion Casnewydd. Gellir cael ffurflenni mynediad drwy'r ysgol neu oddi wrth yr A.A.Ll., ar ddiwedd tymor yr Hydref cyn i'r plentyn ddechrau'r ysgol y mis Medi canlynol. Yn unol â rheoliadau'r Llywodraeth Cymru, adolygwyd rhif Derbyn yr ysgol i 30 o blant yn flynyddol.

Yn ystod y tymor cyn iddynt ddechrau'r ysgol, gwahoddir y plant a'u rhieni/gwarchodwyr i dreulio amser yn yr ysgol, er mwyn rhoi'r cyfle iddynt ddod i adnabod ei gilydd, yr athrawon a'r cymorthyddion. Cyflwynir prospectws i bob rhiant/teulu sy'n ymuno â'r ysgol yn amlinellu agweddau gweithredol yr ysgol.

Children are admitted into the Nursery Class the term after their third birthday and Reception class full time in the September following their fourth birthday. The L.A. is the admitting authority for the school. Refer to Newport City Council website for catchment areas. Admission forms are available through the school, towards the end of the Autumn term prior to a child starting school in September. In line with the Welsh Government's capacity review the recommended number of children admitted to the Reception year is 30.

During the Summer term prior to starting school, the children and their parents/guardians are invited to spend time at the school. This provides an opportunity for the children to get to know each other, the teachers and the support staff. A prospectus containing comprehensive information about Bro Teyrn School is given to every parent / family.

Trefniadau Derbyn plant ym mis Medi

Mae gan yr ysgol broses sefydlu gadarn sy'n seiliedig ar brofiad. Derbynnir y plant newydd mewn grŵpiau bach am y diwrnodau cyntaf o'r tymor ar ddechrau mis Medi, er mwyn cyfle i'r plant bach newydd i 'ymgartrefu'. Tuag at ddiwedd yr wythnos, bydd yr holl blant Derbyn yn mynychu gyda'i gilydd.

Wrth gwrs, gellir derbyn disgyblion hŷn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond mae'r run rheolau sylfaenol yn berthnasol. Gwahoddir y rhieni/gwarchodwyr i gwrdd â'r Pennaeth i drafod trefniadau.

Pan fydd y plant yn 11 oed, byddant yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Rhoddir cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 6 i ymweld ag Ysgol Gyfun Gwent Is Coed cyn iddynt ddechrau eu tymor cyntaf yno.

Arrangements for admitting children into the school in September

The school has a tried and tested induction process whereby new children attend for the first couple of days in small groups. Towards the end of the week all the new Reception children attend together.

Admissions can of course happen at any time of year for older pupils transferring from another school, the same procedures apply. Parents/Guardians are invited to meet with the Headteacher to discuss arrangements.

At the age of 11 the pupils leave for Ysgol Gyfun Gymraeg Gwent Is Coed. Year 6 pupils are given several opportunities to visit Ysgol Gyfun Gymraeg Gwent Is Coed before they start their first term there.

Presenoldeb

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad, datblygiad a dilyniant mewn addysg. Disgwylir i'r plant fynychu'r ysgol yn brydlon ac yn rheolaidd - oni fydd rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny.

Ni ellir pwysleisio gormod bod **presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn hanfodol** er mwyn i blentyn wneud y cynnydd gorau posibl. Gofynnir yn garedig i chi drefnu apwyntiadau meddygol y tu allan i oriau ysgol.

Nid oes gan rieni/gwarchodwyr hawl awtomatig i dynnu disgyblion o'r ysgol i gymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol, ac yn y gyfreithlon, rhaid gwneud cais am ganiatâd o flaen llaw. Ar y llaw arall, gallai fod amgylchiadau sy'n gwarantu caniatáu i ddisgybl gymryd amser i ffwrdd o'r ysgol yn ystod y tymor ysgol. Penaethiaid, felly, sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn datgan bod gan benaethiaid bŵer disgrisiwn i roi caniatâd i ddisgybl fynd ar wyliau teuluol yn ystod y tymor pan fo rhieni/gwarchodwyr yn gofyn am gael gwneud hynny. Ar wahân i amgylchiadau eithriadol, ni ddylid caniatáu mwy na 10 diwrnod o absenoldeb at y diben hwn.

Fe fydd y Pennaeth yn ystyried amgylchiadau unigol fesul achos. Bydd amryw o agweddau yn cael eu hystyried, gan gynnwys: pa adeg o'r flwyddyn y gofynnir am wyliau; am ba gyfnod y gofynnir am wyliau ac at ba ddiben; yr effaith a gaiff cymryd gwyliau ar barhad y dysgu, ar amseru arholiadau neu brofion; amgylchiadau'r teulu a dymuniadau'r rhieni; yn ogystal â phresenoldeb cyffredinol a chyflawniad y disgybl.

Os bydd pennaeth yn penderfynu peidio â chytuno i gais gan riant/gwarchodwr i fynd â'i blentyn ar wyliau yn ystod y tymor ysgol, a'r rhiant/gwarchodwr yn penderfynu mynd â'i blentyn er gwaethaf hynny, caiff hyn ei ystyried yn absenoldeb 'anawdurdodedig'.

Felly, bydd unrhyw absenoldeb yn cael ei ganiatáu yn unig yn ôl disgrisiwn y Pennaeth a fydd yn seliedig ar bresenoldeb y plentyn ar hyd y 12 mis diwethaf. Rhaid i bob cais am wyliau yn ystod y tymor cael ei gofnodi ar ffurflen gais yr ysgol 'Cais Absenoldeb' a bydd rhieni/gwarchodwyr yn cael eu hysbysu o benderfyniad y Pennaeth yn ysgrifenedig wedi hynny.

Attendance

Regular attendance at school is vital to ensure continuity, development and progression in education. Children are expected to attend school every day, unless there is a valid reason for not doing so.

Pupils are also expected to be in school on time. It cannot be over emphasised that **regular and punctual attendance is essential** for a child to make the best possible progress. You are respectfully requested to arrange medical appointments outside of school hours.

Parents/Guardians do not have the automatic right to withdraw their child(ren) from school for a holiday during term time, and in law, have to apply for permissions in advance. However, there may be circumstances that warrant a pupil taking time off in term time and this is why headteachers are best placed to make the decision. The Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010 state that headteachers have a discretionary power to authorise leave for a family holiday during term time where parents/guardians seek permission. Except for exceptional circumstances, no more than 10 days' leave should be granted for this purpose.

The headteacher will consider individual circumstances on a case-by-case basis. A number of aspects will be taken into account, including the time of year, length and purpose of the holiday, impact on continuity of learning, timing of exams or tests, circumstances of the family and the wishes of parents/guardians, as well as the overall attendance and attainment of the child.

If a headteacher decides not to grant a parent's/guardian's request for a holiday in term time, but the parent/guardian takes the child on holiday regardless, this is classed as an 'unauthorised' absence.

Leave of absence therefore, is only granted at the discretion of the Headteacher based on the child's percentage attendance over the previous 12 months. All requests for holidays during term time must be recorded on the school's 'Leave of Absence' request form and parents/guardians will be notified of the Headteacher's decision in writing.

Prydlondeb / Punctuality

Disgwylir i bob plentyn gyrraedd y safle erbyn 8:55a.m. fel ei bod yn y dosbarthiadau erbyn 9:00a.m. Os bydd disgyblion yn cyrraedd yn hwyr mae'n rhaid i'r oedolyn gwblhau y ffurflen yn yr iPad Plant Sy'n Cyrraedd yn Hwyr a leolir yn y brif fynedfa.

Every child is expected to be on the site by 8:55a.m. so that they are ready to be in their classes for 9:00a.m. If pupils arrive late the adult will need to complete the form in the Late Arrivals iPad located in the reception area.

Absenoldeb

Os bydd disgybl yn absennol am unrhyw reswm arall, gofynnir i'r rhieni i ffonio ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb ac yna i ddanfôn nodyn ysgrifenedig neu e-bost gyda'r plentyn ar ei ddiwrnod cyntaf yn ôl i egluro'r absenoldeb – nid yw eglurhad llafar gan y plentyn yn dderbyniol. Mae absenoldeb heb ei awdurdodi yn absenoldeb nad yw'n cael ei gymeradwyo neu nad oes esboniad digonol drosto. Bydd yr ysgol yn monitro disgyblion sy'n hwyr ac yn absennol yn ofalus a chyson iawn.

Bydd yr athrawon dosbarth yn hysbysu'r Pennaeth os bydd disgyblion yn absennol neu'n hwyr yn rheolaidd. Bydd y pennaeth yn cysylltu â'r rhieni er mwyn ceisio datrys y sefyllfa. Os bydd y sefyllfa yn parhau, hysbysir y Swyddog Lles Addysgol (EWO). Rôl y Swyddog yw helpu'r rhieni a'r Awdurdod Addysg Lleol i sylweddoli eu cyfrifoldebau statudol o ran presenoldeb ysgol.

Swyddog penodedig Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon yw Claire Bennett.

Absences

In the case of absences parents are asked to telephone on the first day of absence and then to send a written message explaining the absence on the child's return to school. Explanations for absence made by a child are not acceptable. Unauthorised absence is an absence that has not been approved or adequately accounted for. The school regularly monitors lateness and absence very closely.

The Head teacher is notified by class teachers of continual absence or persistent lateness. Parents will be contacted if attendance is a cause for concern. Recurring absence patterns are referred to the Educational Welfare Officer (EWO). The role of the EWO is to help parents and the Local Education Authority meet their statutory obligations on school attendance.

Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon's designated EWO is Claire Bennett.

Newid Cyfeiriad / Rhif Cyswllt

Dylech sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw newid cyfeiriad, rhif ffôn neu rifau cyswllt brys ar unwaith. Mae hyn yn bwysig iawn rhag ofn bydd angen i ni gysylltu â chi mewn argyfwng.

Change of Address / Telephone Number

Please ensure that school is notified immediately of any changes of address, telephone number or emergency contact numbers. This is essential as we may need to contact you if your child is ill or has an accident in school.

Disgyblion a Gwarchodwyr sydd ag Anableddau

Nid yw'r ysgol yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion nag oedolion sydd â anabledd corfforol. Mae'r adeilad yn sicrhau y gellir symud cadeiriau olwyn yn rhwydd o amgylch yr adeilad ac i ardaloedd chwarae'r ysgol. Fe fydd toiledau pwrpasol ar gyfer y disgyblion ac oedolion anabl yn y brif fynedfa. Dynodwyd safleoedd arbennig er mwyn i gerbydau allu gollwng a chodi disgyblion ag anabledd corfforol yn rhwydd.

Er mwyn hwyluso mynediad i'r ysgol i bob disgybl, rhiant neu warchodwyr a all fod ag unrhyw anabledd, gofynnir yn garedig am wybodaeth am yr anabledd wrth dderbyn y plentyn i'r ysgol a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

Pupils with Disabilities

The school does not discriminate against pupils or adults who have disabilities. The building accommodates easy movement of wheelchairs around the building and on to the school playing areas. Disabled toilets for pupils and adults will be located in the foyer area of the school. Designated drop off areas for disabled pupils and designated parking bays are available in the car park.

In order to ensure good access to the school for all children, parents and guardians that have a disability, we ask kindly for information regarding their disability to be recorded upon the child's entry to the school and updated accordingly.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon, rydyn yn cydnabod bod gan bob plentyn yr hawl i fynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol. Mae pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant mewn agweddau ar anghenion dysgu ychwanegol a'r Cod Ymarfer statudol er mwyn diweddarau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn barhaus.

